Taliesin

THE GREAT HALL
Y NEUADD FAWR

Swansea University
Prifysgol Abertawe

TICKET PRICE DETAILS
MANYLION AM BRISIAU DOCYNNAU

AT/YN TALIESIN & THE GREAT HALL/ Y NEUADD FAWR

www.taliesinartscentre.co.uk
Taliesin Box Office: 01792 60 20 60

www.greathallswansea.co.uk
Great Hall Box Office: 01792 60 49 00 / 01792 60 49 99

Individual ticket prices

Live performances, broadcast events, and film screenings:

Full prices, friends' scheme prices and discount prices (concessions*) depend on the type of performances.

Please check the prices on our seasonal brochure, on the events' pages of our website or call Taliesin Box Office on 01792 60 20 60 or the Great Hall Box Office on 01792 60 49 00 / 60 49 99.

*** Concessions apply for:**

Under 18s, students over 18, Passport to Leisure, Junior Passport to Leisure, people in receipt of a state pension or Unwaged (receiving benefits), disabled people (patron's personal assistant comes free with a valid Hynt card).

Proof of entitlement will be requested.

For more information about our Friends' scheme, please call Taliesin Box Office on 01792 60 20 60.

Where your child is under 2 years of age and is sitting on your lap, you should purchase a Parent & Baby lap seat. The ticket is one standard ticket price and allows a parent and baby to take up one seat.

Party Booking

Group bookings of 8 or more seats benefit from a 10% discount on all Taliesin and Great Hall events (discount may be taken on both full price and concessionary tickets).

This discount is only available through the Taliesin Box Office on 01792 60 2060 or through the Great Hall Box Office on 01792 60 49 00 / 49 99.

Other useful information

Refunds and exchanges

Please note tickets are not refundable. However, we offer credits, valid for 6 months, which you can use for an alternative performance. Tickets must be returned and received at the Taliesin or the Great Hall Box Office at least 24 hours in advance of the screening or performance. We must have the tickets returned to us in order to offer this service. There is a charge of £1 per ticket for this service.

Reprints

If you lose your tickets, we are able to reprint them for a £1 fee as long as a named customer booked the tickets.

Waiting Lists

We offer a waiting list service for sold out events, so that customers can be contacted should seats later become available. Customers wishing to be placed on the waiting list for any event must provide an e-mail address for contact, plus the number of seats required. The customer at the head of the list will be notified of available seats and must book within 24 hours. Reservations not paid for within 24 hours will go to the next person on the waiting list or put back on general sale if no customers are waiting.

Prisiau tocynnau unigol

Perfformiadau byw, darllediadau o ddigwyddiadau a ffilmiau:

Mae prisiau llawn, prisiau cynllun y cyfeillion a phrisiau gostyngol (consesiynau*) yn dibynnu ar y math o berfformiadau.

Gwiriwch y prisiau yn ein rhaglen dymhorol, ar dudalennau digwyddiadau ein gwefan, neu ffoniwch Swyddfa Docynnau Taliesin ar 01792 60 20 60 neu Swyddfa Docynnau'r Neuadd Fawr ar 01792 60 49 00 / 60 49 99.

***Mae consesiynau ar gael i:**

Plant dan 18 oed, myfyrwyr dros 18 oed, Pasbort i Hamdden, Pasbort Iau i Hamdden, pobl sy'n derbyn pensiwn y wladwriaeth neu bobl ddigyflog (yn derbyn budd-daliadau), pobl anabl (mae tocyn cynorthwyydd personol cwsmer am ddim gyda cherdyn Hynt dilys).

Gofynnir am brawf o hawl.

I gael rhagor o wybodaeth am ein cynllun Cyfeillion, ffoniwch Swyddfa Docynnau Taliesin ar 01792 60 20 60.

Os yw eich plentyn yn iau na dwy flwydd oed, ac yn eistedd ar eich gliniau, dylech brynu tocyn Rhiant a Babi. Mae pris y tocyn yr un fath â phris un tocyn safonol, ac mae'n caniatáu i'r rhiant a'r babi ddefnyddio un sedd.

Archebu i Grŵp

Mae **archebion am grŵp o wyth sedd neu fwy** yn elwa o ostyngiad 10% ar holl ddigwyddiadau Taliesin neu'r Neuadd Fawr (mae'r gostyngiad yn berthnasol i docynnau pris llawn a chonsesiynol).
Mae'r gostyngiad hwn ar gael drwy ffonio Swyddfa Docynnau Taliesin ar 01792 60 2060 neu Swyddfa Docynnau'r Neuadd Fawr ar 01792 60 49 00 / 49 99 yn unig.

Gwybodaeth ddefnyddiol arall

Ad-daliadau a chyfnewid tocynnau
Sylwer, ni chaiff pris tocynnau ei ad-dalu. Fodd bynnag, rydym yn cynnig credydau sy'n ddilys am chwe mis, y gallwch eu defnyddio ar gyfer perfformiad arall. Rhaid i docynnau gael eu dychwelyd a'u derbyn yn Swyddfa Docynnau Taliesin neu Swyddfa Docynnau'r Neuadd Fawr o leiaf 24 awr cyn y ffilm neu'r perfformiad. Rhaid i'r tocynnau gael eu dychwelyd atom ni er mwyn i ni gynnig y gwasanaeth hwn. Codir tâl o £1 y tocyn am y gwasanaeth hwn.

Ailargraffu tocynnau
Os ydych yn colli'ch tocyn, gallwn argraffu copi arall am £1 ar yr amod bod y tocynnau wedi cael eu harchebu gan gwsmer a enwir.

Rhestrau Aros
Rydym yn cynnig gwasanaeth rhestr aros lle mae pob tocyn am ddigwyddiad wedi'i werthu. Os daw seddau ar gael nes ymlaen, byddwn yn cysylltu â chwsmeriaid ar y rhestr. Mae'n rhaid i gwsmeriaid sydd am gael eu cynnwys ar restr aros unrhyw ddigwyddiad ddarparu cyfeiriad e-bost, ynghyd â nifer y seddau hoffent eu harchebu. Byddwn yn rhoi gwybod i'r cwsmer ar ben y rhestr os daw seddau ar gael, a rhaid eu harchebu o fewn 24 awr. Os na thelir am seddau ar gadw o fewn 24 awr, cânt eu cynnig i'r person nesaf ar y rhestr aros, neu eu cynnig ar werth i'r cyhoedd os nad oes unrhyw gwsmeriaid yn aros.